

Hawdd ei Ddeall



Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu

Rhagfyr

4

**Nodiadau'r cyfarfod cyntaf a
gafodd ei gynnal ar 4 Rhagfyr 2018**



Y bobl ddaeth i'r cyfarfod

- Gwenda Thomas – Cyd-gadeirydd
- Sophie Hinksman – Cyd-gadeirydd
- Raghu Baburaj – Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
- Adrian Burke – Community Housing Cymru
- Rebecca Cicero – Gofal Cymdeithasol Cymru
- Wayne Crocker – Mencap Cymru
- Christine Griffiths – Pwyllgor Cyngori Therapiau Cymru
- Julian Hallett – Cymdeithas Syndrom Down
- Edwin Jones – Cymuned Ymarfer Ymddygiad Heriol
- Martyn Jones – Anabledd Dysgu Cymru
- Michelle Martin – Fforwm Gofal Cymru
- Emma Mulinder – Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion

- Ruth Northway – Prifysgol De Cymru
- Joe Powell – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- Hayley Tarrant – Pwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru
- Oliver Townsend - Cymorth Cymru
- Catherine Watchorn – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- Pauline Young – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan

Eraill:

- Tracey Drew – yn cefnogi Sophie
- Celia Lewis – yn cefnogi Catherine
- Kelly Stuart – sylwedydd o Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

Swyddogion:

- Karen Eveleigh
- Claire Hough
- Graham Davies
- Alyson Collins

Pobl a ddaeth i siarad am bethau ar y rhaglen:

- Julie Annetts ac Anna Harris – swyddogion
- Andy Wallsgrove – Swyddfa'r Comisiynydd Plant

Pobl oedd wedi methu dod

- Dermot McChrystal – Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg
- Jane Rodgers – Pennaeth Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan
- Sharon Williams – Iechyd Cyhoeddus Cymru

Fe wnaethon ni siarad am:

1. Croeso

Cyflwyniad



- Fe wnaeth Sophie groesawu pawb i gyfarfod cytaf **Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu**. Rydyn ni'n galw'r grŵp yma yn **LDMAG**.
- Gofynnodd Sophie i bawb ddweud pwy oedden nhw ac i bwy roedden nhw'n gweithio.
- Darllenodd Sophie y rheolau ar gyfer ein cyfarfodydd. A dywedodd wrth bawb i wrando ar bobl eraill a pharchu eu barn.
- Fe wnaeth longyfarch Ruth Northway am gael Gwobr Cyflawniad Oes Prif Swyddogion Nyrso'r DU.



Am y Grŵp Cyngori



- Fe wnaeth pawb ddarllen a chytuno gyda'r **Cylch Gwaith**.

Cylch Gwaith ydy dogfen sydd yn dweud beth mae grŵp i fod i'w wneud. A sut fydd aelodau yn gweithio gyda'i gilydd.

- Dywedodd Karen mai nod y grŵp yma ydy cadw golwg ar waith Llywodraeth Cymru.
- Rydyn ni'n gallu rhoi cyngor i weinidogion. Ond does gennym ni ddim pwerau i wneud penderfyniadau

Camau gweithredu

- Fe wnaeth yr aelodau gytuno ar y **Cylch Gwaith**.

Bod yn rhan o'r grŵp yma

Rydyn ni'n hapus i gael aelodau newydd yn y grŵp yma o wahanol gyrff:



- Cymdeithas Syndrom Down
- Fforwm Gofal Cymru
- Community Housing Cymru
- Cymorth Cymru.


Camau gweithredu

- Rydyn ni'n gallu cael gwybodaeth gan bobl eraill y tu allan i'r grŵp pan rydyn ni ei angen.
- Fe fyddwn ni'n edrych ar bwy sydd yn rhan o'r grŵp yma eto yn Rhagfyr 2019.




2. Am y Rhaglen Gwella Bywydau

Adroddiad am y gwaith sydd yn cael ei wneud



- Mae'r Rhaglen Gwella Bywydau yn rhaglen newydd i wneud bywydau pobl gydag anabledd dysgu yng Nghymru yn well.
- Fe wnaeth Karen ddweud wrthyn ni bod pobl yn edrych ar y 24 o **argymhellion** yn y rhaglen.

Argymhellion ydy rhestr o bethau ddylai ddigwydd yn y dyfodol.



- Fe fydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu adroddiadau ar y gwaith sydd yn cael ei wneud fel rhan o'r rhaglen yma.
- Fe fydd yr adroddiadau hefyd yn dweud beth sydd yn cael ei wneud am y 24 o **argymhellion**.
- Mae Karen wedi cael gwybodaeth newydd gan staff am rhai o'r camau gweithredu yn y rhaglen.
- Fe fydd Karen yn rhoi'r wybodaeth newydd yma mewn adroddiad arall. Yna fe fydd yn ei anfon i bawb yn y grŵp.

Camau gweithreu o'r rhaglen

Cam 1 – am yr hyb ACE:

- Rydyn ni eisiau gwybod rhagor am yr hyb **Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod** neu **ACE** a sut mae'n gweithio



Mae **Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod** neu **ACEs** yn meddwl bod pethau drwg yn digwydd pan rydych chi'n ifanc. Er enghraifft os ydy eich

- Gofynnodd Gwenda os ydy canolfan **ACE** yn gweithio gyda'r heddlu, gwasanaeth prawf a thimau troseddau ieuencid a llysoedd teulu.



Cam 5 – Am dai gyda chefnogaeth:

- Dywedodd Claire wrthyn ni bod canllaw am ffyrdd da o weithio mewn byw gyda chefnogaeth yn cael ei ysgrifennu. Fe ddylai hwn fod yn barod erbyn mis Mawrth.

Camau 9 a 10 – Gweithio mewn ffordd sydd yn canoli ar y person a chyllido ar y cyd:



- Dyweodd Karen bod gan **Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol** ran bwysig mewn:
 - Cynllunio a gweithio gyda'i gilydd
 - Cynllunio a phrynu gwasanaethau i ateb anghenion pobl.

- Maen nhw'n gallu cael arian ar gyfer hyn o'r **Gronfa Trawsnewid** a'r **Gronfa Gofal Integredig**.

Cam 13 – Gwneud yn siŵr bod rhagor o bobl yn cael gwiriad iechyd o ansawdd da bob blwyddyn:



- Dywedodd Karen bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn siarad gyda'r **Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol** neu **GPC Cymru** am gynllun newydd ar gyfer gwiriadau iechyd bob blwyddyn.
- Mae'r cynllun newydd yn dweud y bydd pawb gydag anabledd dysgu sydd yn 14 oed neu drosodd yn gallu cael gwiriad iechyd bob blwyddyn.
- Fe fyddan nhw'n siarad am y cynllun mewn cyfarfod am gontractau newydd i feddygon teulu.

Fe wnaethon ni siarad am sut i:



- Cael pobl gydag anabledd dysgu ar restrau meddygon teulu.
- Gwneud yn siŵr bod pobl gydag anabledd dysgu yn cael gwiriad iechyd bob blwyddyn.
- Siarad gyda phobl am pam bod gwiriad iechyd yn bwysig.
- Helpu meddygon teulu i roi gwiriadau iechyd o ansawdd da bob blwyddyn ar draws Cymru.



Camau gweithredu

- Fe fyddwn ni'n gweld sut mae'r hyb ACE yn gweithio gyda'r heddlu, gwasanaeth prawf, timau troseddu ieuencod a llysoedd teulu. Fe fyddwn ni'n trefnu cyfarfod gyda'r hyb ACE a Chris, Edwin, Martyn, Oliver, Pauline a Wayne.
- Fe fydd Claire yn gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod pa mor bwysig ydy therapïau fel llefaredd ac iaith neu ffisiotherapi mewn byw gyda chefnogaeth.
- Fe fyddwn ni'n anfon gwybodaeth allan am y grant Cronfa Gofal Integredig ar gyfer 2019-20 i'r grŵp yma.
- Fe fyddwn ni'n anfon y cynllun gwiriad iechyd blynyddol newydd allan i'r grŵp yma.
- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan, Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan ac Anabledd Dysgu Cymru i roi gwybodaeth i bobl am wiriadau iechyd bob blwyddyn ar draws Cymru.
- Os oes gennyn ni gwestiynau am adroddiad y Rhaglen Gwella Bywydau rydyn ni'n gallu e-bostio Karen.

Gwaith ymchwil

Ymchwil ydy ffordd o gael gwybodaeth newydd am rhywbeth

Rhaglen Gwella Bywydau:



- Fe wnaeth Karen a Ruth ddweud ei bod yn bwysig gweld sut mae'r Rhaglen Gwella Bywydau yn helpu pobl gydag anabledd dysgu.
- Roedden nhw'n dweud ei bod hi'n bwysig gweld pa rannau sydd angen eu gwella.
- Fe ddywedodd Ruth ei bod hi'n bwysig deall pa wybodaeth sydd ar gael am anableddau dysgu yng Nghymru.
- Fe ddywedodd Rebecca wrthyn ni am yr wybodaeth **ymchwil** sydd gan **Gofal Cymdeithasol Cymru**.



Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru:



- Fe ddywedodd Karen y bydd Prifysgol De Cymru yn gweld os ydy'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi gwneud bywyd yn well i bobl a'u gofalwyr.



Camau gweithredu

- Fe fydd Karen yn ysgrifennu adroddiad am yr holl waith **ymchwil** ar gyfer ein cyfarfod nesaf ym mis Mawrth.
- Fe fydd Karen yn gweithio ar gynllun **ymchwil** ar gyfer ein cyfarfod ym mis Mehefin.
- Fe fydd Edwin, Joe, Martyn, Michelle, Oliver, Pauline, Rebecca a Wayne yn gweithio gyda Karen, Hazel a Ruth ar y cynllun yma.

3. Am y Cod Ymarfer ar gyfer gwasanaethau awtistiaeth yng Nghymru

- Fe wnaeth Julie ac Anna siarad am y **Cod Ymarfer** roedden nhw yn ei ysgrifennu ar sut mae'n rhaid i wasanaethau awtistiaeth weithio.



Mae **Cod Ymarfer** yn rhoi rheolau a chynghor am y ffyrdd gorau o weithio. Mae'n esbonio sut i ddilyn deddfau a chynlluniau. Rydyn ni'n ei alw yn **Cod**.



Fe ddywedodd Anna wrthyn ni:

- pryd fydd y **Cod Ymarfer** yn barod.
- beth fydd yn y **Cod**
- y 4 rhan mwyaf pwysig yn y **Cod**.



- Fe ddywedodd Julie y bydd y **Cod** yn cael ei ysgrifennu yn hawdd ei ddeall yn 2019.
- Fe ddywedodd Julie wrthyn ni y byddan nhw'n siarad gyda phobl, elusennau a chyrff eraill am y **Cod**.
- Fe wnaethon ni siarad am y **Cod** ac a fyddai'n helpu pobl gydag awtistiaeth sydd hefyd gydag anabledd dysgu.



Camau gweithredu


- Fe fydd Julie yn defnyddio beth mae'r grŵp wedi ei ddweud pan fydd yn ysgrifennu'r **Cod Ymarfer** olaf.

4. Am yr adroddiad 'Peidiwch â dal yn ôl'



- Fe ddywedodd Andy wrthyn ni am adroddiad roedd y Comisiynydd Plant wedi ei ysgrifennu am **bontio** i bobl ifanc gydag anabledd dysgu.

Mae **pontio** yn meddwl newid o fod yn blentyn i fod yn oedolyn. Yn aml mae hyn yn meddwl newid o wasanaethau cymdeithasol plant i wasanaethau



- Enw'r adroddiad yma ydy '**Peidiwch â dal yn ôl**'. Cafodd ei ysgrifennu ym mis Gorffennaf 2018.
- Fe wnaeth y Comisiynydd Plant ysgrifennu'r adroddiad ar ôl cyfarfod grŵp o blant a'u rhieni yng ngogledd Cymru.



Fe ddywedodd Andy wrth y grŵp hefyd am:

- Gwaith **ymchwil** Dr Axel Kaehne ar **bontio**.
- Gwaith **CARP Collaborations** i gael barn pobl ifanc, eu rhieni a gweithwyr proffesiynol.

Fe ddywedodd Andy mai'r camau nesaf ydy:



- dweud wrth bobl am yr adroddiad
- gofyn i Lywodraeth Cymru beth maen nhw'n feddwl
- gwrando ar beth sydd gan bobl ifanc a'u teuluoedd i'w ddweud.




Fe ddywedodd Karen wrthyn ni bod yr **argymhellion** yn yr adroddiad 'Peidiwch â dal yn ôl' yn cysylltu gyda'r **argymhellion** yn y Rhaglen Gwella Bywydau.

Camau gweithredu



- Fe ddywedodd Andy y byddai'n gweld sut mae gwasanaethau therapi fel llefaredd ac iaith neu ffisiotherapi yn rhan o **bontio**.
- Fe ddywedodd yr aelodau y dylai'r **argymhellion** yn yr adroddiad 'Peidiwch â dal yn ôl' fod yn y Rhaglen Gwella Bywydau hefyd.

5. Unrhyw beth arall y gwnaethon ni siarad amdano



Beth fyddwn ni'n siarad amdano mewn cyfarfodydd yn y dyfodol

Fe esboniodd Karen beth roedd hi'n meddwl y gallai'r grŵp siarad amdano mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.



- **Mawrth:**

- Pontio
- Gwybodaeth am y cynllun [ymchwil](#).



- **Mehafin:**

- Gwybodaeth am sut mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru yn gweithio.
- Adroddiad am y Rhaglen Gwella Bywydau.



- **Medi:**

- Gwybodaeth o'r prosiect [ymchwil](#) ar rieni gydag anabledd dysgu. A beth sydd angen ei wneud nesaf.
- Gwybodaeth am yr [argymhellion](#) iechyd yn y Rhaglen Gwella Bywydau i blant a phobl ifanc gydag anabledd dysgu.
- Blynyddoedd cynnar.



- Fe wnaethon ni siarad am sut a lle y dylai cyfarfodydd yn y dyfodol ddigwydd.
- Roedd rhai aelodau yn meddwl ei fod yn syniad da creu grwpiau i wneud rhywfaint o'r gwaith oedd wedi cael ei benderfynu mewn cyfarfodydd.



Camau gweithredu

- Fe fydd Karen yn anfon syniadau allan am beth y dylai'r grŵp siarad amdano mewn cyfarfodydd yn y dyfodol erbyn diwedd Ionawr.
- Fe fyddwn ni'n siarad am y syniadau yn y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth.

6. Cyfarfodydd yn y dyfodol



- **Llun 25 Mawrth 2019** 11am i 3pm.
- **Mawrth 4 Mehefin 2019** 11am i 3pm.
- **Mawrth 10 Medi 2019** 11am i 3pm.
- **Mercher 4 Rhagfyr 2019** 11am i 3pm.

7. Cyfarfod nesaf



Llun 25 Mawrth 11am i 3pm